

## 2011 Rhif. 578 (Cy.83)

### TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

#### Gorchymyn Cefnffordd yr A470 (Ffyrdd Ymuno ac Ymadael wrth Gyfnewidfeydd Ffynnon Taf a Glan-bad, Rhondda Cynon Taf) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2011

*Gwnaed* 2 Mawrth 2011

*Yn dod i rym* 14 Mawrth 2011

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darnau perthnasol o Gefnffordd Caerdydd – Llangurig (yr A470) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel “y gefnffordd”), wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud arnynt.

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1) a phob pŵer galluogi arall(2), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 14 Mawrth 2011. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A470 (Ffyrdd Ymuno ac Ymadael wrth Gyfnewidfeydd Ffynnon Taf a Glan-bad, Rhondda Cynon Taf) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2011.

2. —1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr “cerbyd esempt” (“*exempted vehicle*”) yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys neu mewn cysylltiad â'r gwaith sydd wedi arwain at y Gorchymyn hwn;

ystyr “cyfnod y gwaith” (“*works period*”) yw'r cyfnod hwnnw sy'n cychwyn am 21:00 o'r gloch ar 14 Mawrth 2011 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud oddi yno'n derfynol;

ystyr “y darnau o'r gefnffordd” (“*the lengths of the trunk road*”) yw'r darnau o gefnffordd yr A470 wrth Gyfnewidfeydd Ffynnon Taf a Glan-bad ym Mwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf a ddisgrifir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl neu Atodlen â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl neu'r Atodlen sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

3. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 4, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, fynd ar hyd y darnau o'r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen.

4. Ni fydd darpariaethau erthygl 3 yn gymwys ond ar yr adegau ac i'r graddau y bydd arwyddion traffig yn dangos bod y gwaharddiad y maent yn cyfeirio ato yn weithredol.

5. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod y Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig y 2 Mawrth 2011

**G MORGAN**  
Pennaeth Gwasanaethau Arbenigol Seilwaith  
Llywodraeth Cynulliad Cymru

(1) 1984 p.27; amnewidiwyd adran 14 gan Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26), adran 1(1) ac Atodlen 1.

(2) Yn rhinwedd O.S. 1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

### **YR ATODLEN**

Y darn cyfan o'r ffordd ymuno tua'r gogledd wrth Gyfnewidfa Ffynnon Taf ym Mwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf.

Y darn cyfan o'r ffordd ymuno tua'r gogledd wrth Gyfnewidfa Glan-bad ym Mwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf.